

## Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru (Rhan Amser)

<b>Adran:</b>	Canolfan Ffilm Cymru (CFfC)
<b>Teitl Swydd:</b>	Swyddog Gwnaethpwyd yng Nghymru
<b>Graddfa:</b>	£25,399 pro-rata,
<b>Contract:</b>	32 awr yr wythnos (12 mis Dyletswyddau a Chyfrifoldebau)
<b>Dyletswyddau a Chyfrifoldebau:</b>	Chapter, Caerdydd (gweithio o bell yn bosibl yn cynnwys gweithio o gartref yn ystod Covid-19)
<b>Atebol i:</b>	Rheolwraig Strategol, Canolfan Ffilm Cymru
<b>Atebol am:</b>	Dim adroddiadau uniongyrchol. Arolygu interniaid a staff dros dro yn achlysurol

### Diben y Swydd

Datblygu ymwybyddiaeth cynulleidfaoedd a diwydiant o ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig. Fe fydd deiliad y swydd yn gweithio gyda'r sector sgrin yng Nghymru i ddatblygu cynulleidfaoedd newydd a chynaliadwy ar gyfer ffilmiau Cymreig, edrych ar ddata perfformiad, technegau marchnata a digwyddiadau sydd yn ychwanegu gwerth at ryddhau'r ffilm. Cefnogir y rôl hon gyda arian gan lywodraeth Cymru.

### Dyletswyddau a Chyfrifoldebau

#### R&D

- Gweithredu canlyniadau ymchwil a gynhaaliwyd eisoes if rand Gwnaethwyd yng Nghymru ar gyfer ffilmiau gyda chysylltiadau Cymreig, yn cynnwys psibiliadau cam dau R&D,
- Monitro perfformiad ffilmiau ac ystyried dulliau effeithiol o gasglu data gyda'r bwriad o lywio strategaethau ffilmiau yn y dyfodol i wneuthurwyr ac arddangoswyr ffilmiau.

#### Codi arian

- Chwilio am gyllid pellach i gam 2 R&D a pharhad y rôl,

#### Adnoddau Datblygu, Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus

- Cydgysylltu gyda phartneriaid i sefydlu ffilmiau Newydd Cymreig sydd i ddod sydd angen cefnogaeth ychwanegol ac edrych sut y gallem ychwanegu gwerth,
- Edrych ar bosibiliadau allgyrraedd ar gyfer hyd at 10 ffilm yn flynddol, ystyried partneriaethau a chynulleidfaoedd lleiafrifol,
- Gwybod am y gweithgareddau a'r digwyddiadau diweddaraf, chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo dangosiadau yng Nghymru a'r DU gyfan.
- Ystyried syniadau marchnata arloesol sydd yn creu disgywliad o amgylch ffilmiau Newydd Cymreig, yn cynnwys sut y gallwn gyrraedd y rhai sydd ddim yn mynychu a chymunedau ehangach. Gallai hyn gynnwys cysylltiadau, creu asedau/adnoddau, y wasg a chyfryngau cymdeithasol,
- Comisiynu a/neu greu ffotograffi/fideograffi/cynnal cyfweiliadau,
- Adroddiadau gweledol/zine/newyddlen/taflenni bob chwarter i ddiweddarau cynulleidfaoedd a'r diwydiant am gyfleoedd/ffilmiau newydd. Gallai hyn gynnwys beth sydd ar restrau, podlediadau neu gyfweiliadau ,
- Creu sylw cysylltiadau cyhoeddus o gynnwys ffilmiau (lle mae'n bosibl),
- Diweddariadau ar y wefan, yn cynnwys catalog Gwnaethpwyd yng Nghymru ac ystafell ragddangos ffilmiau Cymreig,
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Twitter ac Instagram).

## Gweinyddiaeth

- Trefnu cyfarfodyd diwydiant chwarterol Gwnaethpwyd yng Nghymru, chwilio am siaradwyr gwadd a chasglu gwybodaeth berthnasol gan bartneriaid,
- Archwilio prosiectau partneriaeth posibl rhwng cyrff Gwnaethpwyd yng Nghymru.
- Adrodd i gyllidwyr.

## Amrywiol

- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel ag y mae'n rhesymol ofynnol gan y Brif Weithredwraig neu Reolwraig Strategol Canolfan Ffilm Cymru,
- Bod yn gyfarwydd gyda'r holl weithdrefnau lechyd a Diogelwch, gweithrediadol, personel, gofal cwsmer, Diogelu Data ac ariannol, gan sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r holl rwymedigaethau statudol, yn enwedig mewn perthynas â deddfau trwyddedu a chymorth cyntaf,
- Rhaid cyflawni dyletswyddau deiliad y swydd bob amser mewn cydymffurfiaeth gyda pholisi Cyfle Cyfartal Chapter gan sicrhau cyfle cyfartal i bob person yn fewnol ac yn allanol i Chapter.

## Amodau Arbennig

- Efallai y bydd angen oriau gwaith hyblyg yn cynnwys penwythnosau/gyda'r nos a rhywfaint o deithio o amgylch Cymru. Caiff ymagwedd hyblyg ei mabwysiadu i sicrhau bod ymgeiswyr gyda gofynion mynediad/galwadau gofawyr yn derbyn cefnogaeth,
- Anogir ymgeiswyr o gefndiroedd amrywiol i ddod â'u profiad i'r rôl ac i feithrin dealltwriaeth ehangach oddi mewn i dîm Canolfan Ffilm Cymru a'r FAN ehangach.

**Dydy'r disgrifiad swydd yma ddim wedi'i fwriadu i fod yn gyflawn. Fe fydd disgwyl i ddeiliad y swydd fabwysiadu ymagwedd hyblyg tuag at ddyletswyddau all fod yn amrywiol (yn dilyn trafodaeth gyda deiliad y swydd) yn amodol i anghenion y corff, ac yn unol â phroffil cyffredinol y swydd.**

## Manyleb y Person

### *Sgiliau/gallu hanfodol*

- Addysg i lefel gradd neu brofiad gwaith cyfatebol,
- Profiad a dealltwriaeth dda o farchnata a datblygu cynulleidfa,
- Profiad o gydlynu prosiect ar raddfa debyg, Sgiliau cyfathrebu ardderchog ar y ffôn, yn bersonol ac ar e-bost, yn ddymunol gyda phrofiad o ddatblygu partneriaethau,
- Gallu i ysgrifennu copi ar gyfer y wasg ac ar-lein,
- Gallu i gynrychioli'r Ganolfan yn hyderus mewn digwyddiadau cyhoeddus,
- Ymagwedd ragweithiol, egniol tuag at dasgau, gan gyflwyno atebion creadigol i broblemau,
- Gallu i weithio i derfynau amser, deal sut mae hyn yn effeithoo ar aelodau'r tîm,
- Sgiliau trefnu, gweinyddu ac amser cryf, yn ddymunol mewn amgylchedd swyddfa,
- Gallu i weithio are ich liwt eich hun ac ar amrywiol dasgau,
- Llythrennedd mewn TG, yn enwedig meddalwedd y we, ymgyrchodd e-bost, cyfryngau cymdeithasol a dylunio,
- Profiad o godi arian.

## *Dymunol*

- Gwybodaeth Gwaith da o arddangos ffilmiau,
- Deall y rhwystrau y mae cymunedau lleiafrifol ac/neu unigolion gyda rhwystrau i fynediad y neu wynebu,
- Profiad o ddelio gda'r wasg a'r cyfryngau,
- Sgiliau golygu fideo ac/neu sgiliau ffotograffi.
- Y gallu i siarad ac ysgrifennu yn y Gymraeg,
- Profiad o godi arian,
- Profiad oa drodd i gyllidwyr,
- Trwydded gyrru, ac yn berchen ar gerbyd eu hun.

## **Ceisiadau**

Fe fydd y rhestr fer ar gyfer cyfweiliadau yn seiliedig ar ymgeiswyr yn diwallu'r meini prawf hanfodol a restrir yn y swydd ddisgrifiad.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: **9am 14 Rhagfyr**.

Fe fyddwn yn cysylltu gyda'r ymgeiswyr ar y rhestr fer erbyn **15 Rhagfyr** a chynhelir y cyfweiliadau ar **18 Rhagfyr drwy Zoom**. Noder os gwelwch yn dda, os nad ydych wedi clywed oddi wrthym erbyn y dyddiad cyswllt uchod, rydych wedi bod yn aflwyddiannus ac ni allwn gynnig cyfweiliad i chi. Y dyddiad cychwyn delfrydol i ymgeiswyr ydy **Ionawr 2021**.

**Anfonwch eich cais, yn cynnwys enwau, cyfeiriadau e-bost a rhif ffôn dau ganolwr at [apply@chapter.org](mailto:apply@chapter.org)**